

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor
Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 09, 10 a 11 Rhagfyr 2024
Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-462-3

© Hawlfraint y Goron 2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar 09, 10 a 11 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd y tîm gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom gynnal ymarfer bwrdd gwaith o bell gan edrych ar gofnodion naw claf a fu yn yr Adran Achosion Brys, gydag anghenion amrywiol, dros y chwe wythnos blaenorol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cawsom wyth ymateb gan gleifion. Ni chwblhaodd pob ymatebydd yr holiadur cyfan, a chafodd rhai cwestiynau eu gadael yn wag ym mhob rhan. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cafwyd wyth ymateb.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn gweithio'n galed o dan amodau heriol iawn. Roedd llawer o'r staff yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal da. Fodd bynnag, roedd nifer y cleifion a oedd yn dod i'r adran ac aciwtedd y cleifion hynny, a'r llif cleifion i wardiau yn yr ysbyty yn aml yn llesteirio eu hymdrechion.

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac roedd cyfrinachedd yn cael ei gynnal ar y cyfan, er gwaethaf yr amgylchedd prysur. Er ei bod hi'n anodd cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion ar droliâu yn y coridorau, roedd y staff yn ceisio lleihau'r anawsterau hyn drwy symud y cleifion i ardaloedd mwy addas pan fo angen. Dylai'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i leihau'r angen am ofal yn y coridorau.

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y ffordd yr oedd y staff yn rhyngweithio â nhw, ac ar y gofal roeddent yn ei gael. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn feirniadol o'r amseroedd aros. Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd gwrtais, broffesiynol ac urddasol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd heriau sylweddol yn bodoli mewn perthynas â llif cleifion drwy'r adran. Roedd hyn yn deillio'n bennaf o oedi cyn rhyddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty, a oedd yn golygu nad oedd digon o fannau i symud cleifion iddynt. O ganlyniad, roedd cleifion yn treulio dros 36 awr yn yr adran. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng nghyd-destun pwysau cenedlaethol ar adrannau achosion brys, ac nid yw'n unigryw i Ysbyty Maelor Wrecsam. Serch hynny, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu brysbennu'n gyflym ar ôl iddynt gyrraedd yr adran, er mwyn cynnal eu diogelwch.

Er gwaethaf y materion a nodwyd, bu gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf ym mis Awst 2022. Mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol iawn o'r materion parhaus ac mae'n parhau i ystyried mentrau gwahanol i wella llif cleifion yn yr ysbyty.

Yn gyffredinol, nid oedd cydymffurfiaeth ddigonol bob amser mewn perthynas â rheoli risg. Gwelsom rai materion yn yr ystafell asesu iechyd meddwl a oedd yn peri risg o hunan-niwed, a gellid gwella'r broses o gwblhau asesiadau risg amserol ar gyfer cleifion ac agweddau ar atal a rheoli heintiau.

Roedd y rhan fwyaf o'r prosesau rheoli meddyginiaethau yn unol â safonau cenedlaethol a pholisïau'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiadau defnyddio rhai meddyginiaethau a hylifau mewnythiennol wedi mynd heibio, ac nad oedd rhai meddyginiaethau'n cael eu storio yn eu bocsys gwreiddiol. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Caiff cofnodion yr Adran Achosion Brys eu cadw ar system electronig, ond caiff dogfennaeth a gwblheir gan feddygon arbenigol o adrannau eraill sy'n adolygu cleifion yn yr Adran Achosion Brys eu cadw ar ffurf papur. Dim ond y cofnodion electronig a welsom, felly roedd hi'n anodd i ni gael darlun cyflawn a manwl o'r broses asesu a thrin gyffredinol. Byddai cyflwyno system rheoli cofnodion electronig ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau a rhyngddynt yn sylweddol.

Gwelsom gyfathrebu priodol rhwng staff yr Adran Achosion Brys, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo shift, a oedd, ar y cyfan, yn fanwl ac yn effeithiol. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r arolygiad blaenorol yn 2022.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhoi mesurau ar waith i sicrhau y caiff dyddiadau defnyddio meddyginiaethau a hylifau mewnythiennol eu gwirio'n rheolaidd, ac i waredu eitemau y mae eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio
- Sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio yn eu bocsys gwreiddiol bob amser, ynghyd â'r taflenni gwybodaeth perthnasol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd aelodau tîm arwain yr Adran Achosion Brys yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth, a byddai'r Fetron yn cynorthwyo'r staff ar adegau prysur iawn. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'n hanfodol bod y bwrdd iechyd yn sicrhau cymorth priodol gan arweinwyr allweddol allanol ac yn rhoi dull o ysgogi gwelliannau ar waith ar draws yr ysbyty cyfan.

Gwelsom fod lefelau derbyniol o staff nyrsio a staff meddygol yn yr adran ac mai prin y defnyddiwyd staff asiantaeth, gan ddangos gwelliant o gymharu â'r arolygiad

blaenorol. Er bod yr adran yn brysur, roedd y staff yn ymdopi'n dda ac yn rhoi sylw i anghenion y cleifion.

Ar y cyfan, roedd diwylliant cadarnhaol, cefnogol a chynhwysol yn yr adran, ac roedd y saff yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Gallai'r cleifion roi adborth yn uniongyrchol i'r staff, ac roedd systemau ffurfiol ar waith i ddelio â chwynion, a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Roedd hysbysiadau yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i bryderon, ac roedd y staff yn rhannu adborth gan gleifion ac yn dysgu o ddigwyddiadau ac adolygiadau cenedlaethol er mwyn gwella'r gwasanaeth. Roeddem o'r farn bod digwyddiadau a phryderon yn cael eu rheoli'n briodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Gwnaethom ymgysylltu â chleifion drwy gydol ein harolygiad, a chawsom 8 ymateb i'n harolwg cleifion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol y mhob maes. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn feirniadol o'r amseroedd aros.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn gwahanol rannau o'r adran, ac roedd llawer ohoni yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion gan eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch, ac yn cynnal eu cyfrinachedd cymaint â phosibl mewn amgylchedd prysur. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a gwblhaodd yr holiadur fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Er bod y staff yn ceisio cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn aros am ragor o asesiadau a thriniaeth, roedd yn amlwg ei bod hi'n fwy anodd gwneud hyn ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn aros ar gadeiriau yn y coridorau. Fodd bynnag, roedd y staff yn ystyriol o'r angen i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn y coridorau, a byddai cleifion yn cael eu symud i ardaloedd mwy priodol o'r adran pan oedd angen rhoi gofal personol iddynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i leihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau.

Gwelsom fod ardaloedd o'r adran wedi'u haddurno'n dda ac yn briodol ar gyfer eu defnydd arfaethedig, er enghraifft y gwaith celf a'r addurniadau Nadoligaidd yn yr ardal bediatrig.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Wrth edrych ar sampl o gofnodion y cleifion, gwelwch fod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu ar sail amlddisgyblaethol ac mewn ffordd a oedd yn nodi anghenion a dymuniadau unigol y cleifion ac yn eu diwallu a'u bodloni.

Amserol

Gofal amserol

Ar y cyfan roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a gwblhaodd holiadur yn gadarnhaol am y gofal a roddwyd ond roeddent yn feirniadol o'r amseroedd aros.

Roedd pump o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu hasesu o fewn 30 munud i gyrraedd yr adran, a dywedodd un ei fod wedi cael ei asesu'n syth. O blith y naw claf y gwnaethom olrhain eu hachosion fel rhan o'n hymarfer bwrdd gwaith, dim ond tri a gafodd eu brysbennu o fewn 15 munud i gyrraedd yr adran, fel yr argymhellir gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, a bu'n rhaid i un ohonynt aros am awr a saith munud cyn cael ei frysennu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu brysbennu'n gyflym ar ôl iddynt gyrraedd yr Adran Achosion Brys.

Roedd chwech o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo eu bod wedi aros am lai na dwy awr cyn cael eu trin neu eu hatgyfeirio.

Roedd ardal aros yr Adran Achosion Brys yn brysur drwy gydol yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd yr ardal aros ac ardaloedd eraill yr Adran Achosion Brys yn gymharol dawel, er bod llawer o gleifion yn yr ardaloedd hyn.

Roedd heriau sylweddol yn ymwneud â llif cleifion drwy'r adran. Roedd hyn y tu hwnt i reolaeth staff yr Adran Achosion Brys, ac roedd i'w briodoli'n bennaf i oedi cyn rhyddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty. Roedd yr oedi hyn yn deillio o'r ffaith bod cleifion yn aros am ragor o gymorth, fel adsefydlu, pecynnau gofal, neu leoliadau mewn cyfleusterau eraill. Roedd rhai cleifion yn treulio mwy na 36 awr yn yr adran, ac nid oes gan yr adran yr adnoddau i'w cadw am gyfnodau mor hir.

Er bod y materion hyn yn effeithio ar ddiogelwch, profiad ac urddas y cleifion, bu rhai gwelliannau ers ein harolygiad diwethaf ym mis Awst 2022. Mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol iawn o'r materion hyn ac mae'n parhau i ystyried mentrau gwahanol i wella llif cleifion yn yr ysbyty.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i wella llif cleifion drwy'r adran ac ym mhob rhan o'r ysbyty ehangach.

Roedd cleifion â chyflyrau risg uchel lle mae amser yn y fantol yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol ac yn cael eu symud o'r ardal aros i ardaloedd eraill mwy priodol yn yr Adran Achosion Brys am driniaeth. Dywedwyd wrthym fod cymorth arbenigol yn dda, a bod meddygon arbenigol yn ymateb mewn modd amserol i geisiadau i asesu cleifion.

Roedd rhywfaint o oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei reoli'n briodol ac roedd trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo o ambiwlansys i'r Adran Achosion Brys mewn modd amserol.

Disgrifiodd y staff y cydberthnasau gwaith da rhwng staff yr Adran Achosion Brys a staff ambiwlansys. Roedd cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys yn cael gofal da, a phe bai angen, byddai staff yr Adran Achosion Brys yn darparu gofal yn yr ambiwlans. Byddai cleifion hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r adran er mwyn dechrau eu triniaeth a'u trosglwyddo'n ôl i'r ambiwlans wedi hynny.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Ar y cyfan, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y wybodaeth yr oedd y staff yn ei rhoi, a dywedodd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur eu bod yn teimlo bod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud ac wedi gwrandao arnynt ac ateb yn eu cwestiynau.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Dywedwyd wrthym fod rhai o staff yr Adran Achosion Brys yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) a bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn ieithoedd eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn yr Adran Achosion Brys ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos am fân anafiadau a'r defnydd priodol o Adran Achosion Brys, ynghyd â manylion gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid gwella'r arwyddion o brif fynedfa'r ysbyty i'r Adran Achosion Brys, a dywedwyd wrthym fod yr adran ystadau a chyfleusterau yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod y staff yn ceisio rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r bobl, ni waeth beth fo'u rhywedd neu gefndir. Mae hyn yn cydfynd â dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y claf mewn adrannau achosion brys.

Mae datganiad ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer adrannau achosion brys yn rhoi pwyslais ar ddarparu'r gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, ac roedd y staff yn ceisio gwneud hyn hyd eithaf eu gallu, mewn amgylchedd dan bwysau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Yn gyffredinol, nid oedd cydymffurfiaeth ddigonol bob amser mewn perthynas â rheoli risg. Gwelsom nad oedd rhywfaint o'r dodrefn yn yr ystafell asesu iechyd meddwl yn addas at y diben a bod risgiau posibl o hunan-niwed/risgiau pwyntiau clymu posibl. Serch hynny, dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu goruchwylio yn yr ystafell hon. Gwelsom hefyd y gellid gwella'r broses o gwblhau asesiadau risg amserol ar gyfer cleifion, ac agweddau ar atal a rheoli heintiau, a nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod dyluniad y dodrefn yn yr ystafell asesu iechyd meddwl yn briodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff, ac y caiff risgiau pwyntiau clymu eu hasesu ac yr eir i'r afael â nhw.

Roedd yr ardal aros yn cael ei goruchwylio'n dda gan nyrs hyfforddedig, ac roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch cleifion a oedd yn aros i gael rhagor o asesiadau neu driniaeth.

Roedd y cypyrddau storio yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr adran gyfan yn lân ac yn daclus ac roedd y staff glanhau yn weladwy yn yr adran drwy gydol yr arolygiad. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod yr adran yn lân iawn.

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i reoli'r risg o groes-heintio. Fodd bynnag, gwelsom gleifion â heintiau a allai fod yn drosglwyddadwy yn cael gofal mewn ardaloedd agored o'r Adran Achosion Brys pan ddylent fod wedi cael ei roi mewn ciwbicl er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd nifer o adegau pan allai'r staff arfer hylendid dwylo, ac roedd cyfarpar diogelu personol hefyd ar gael ym mhob ardal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion sy'n dod i'r Adran Achosion Brys â symptomau heintiau a allai fod yn drosglwyddadwy yn cael eu rhoi mewn ardal briodol, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Diogelu plant ac oedolion

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth foddhaol am faterion yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion, trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a galluedd meddyliol.

Gwelsom fod gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ar gyfer atgyfeirio ac uwchgyfeirio pryderon am ddiogelu, a mynd ar eu trywydd, a bod hyn wedi'i ategu gan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd lefelau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar ddiogelu yn briodol.

Rheoli gwaed

Roedd tystiolaeth o arferion da mewn perthynas â rheoli a thrallwysu cynhyrchion gwaed, a phrosesau cadw cofnodion da.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd systemau cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod cyfarpar a dyfeisiau meddygol yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y rhan fwyaf o'r prosesau rheoli meddyginiaethau yn unol â safonau cenedlaethol a pholisïau'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiadau defnyddio rhai meddyginiaethau i'w chwistrellu a hylifau i'w trwytho'n fewnwythiennol yn yr ardal adfywio wedi mynd heibio. Gwelsom hefyd nad oedd eitemau o feddyginiaethau yn cael eu storio yn eu bocsys gwreiddiol. **Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn fanylach yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.**

Roedd fferylllydd dynodedig yn yr adran ac roedd cymorth ar gael i'r staff y tu allan i oriau pe bai angen. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwysu yn cael eu cynnal fel mater o drefn nac mewn modd amserol. Gall hyn olygu nad yw cleifion yn cael clustogau na matresi lleddfu pwysau mewn modd amserol, sy'n peri risg y byddant yn datblygu briwiau pwysu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwysu yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.

Atal cwympiadau

Er y gwelwyd staff ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn yr adran yn helpu cleifion i symud a chynnal eu hannibyniaeth, nid oedd asesiadau o'r risg o gwympo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion pan hynny'n briodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwympo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau cynllunio gofal amlddisgyblaethol ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau'r cleifion o ran sut roeddent y dymuno cael gofal.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal pum claf ar y safle, a gwnaethom gynnal adolygiad bwrdd gwaith oddi ar y safle o gofnodion gofal naw claf arall. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn cael eu hasesu a'u monitro'n briodol ac yn unol â chanllawiau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd arsylwadau rheolaidd ar gleifion yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n gyson.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arsylwadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n gyson.

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau effeithiol ar waith ar gyfer asesu a rheoli poen. Fodd bynnag, roedd anghysondebau o ran y ffordd yr oedd gwerthusiadau rheoli poen yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwerthusiadau rheoli poen yn cael eu cofnodi'n gyson.

Maeth a hydradu

Roedd bwyd a diod ar gael i'r cleifion pan fo angen, ac ar y cyfan, roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu diwallu yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys y cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys y tu allan i'r adran. Gwelwyd bod cleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta neu yfed yn cael cymorth gan y staff a gwirfoddolwyr y Groes Goch.

Roedd siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu defnyddio lle y nodwyd hynny. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu cwblhau'n gyson, felly nid oeddent yn rhoi

darlun cywir o gymeriant hylif y cleifion na'r hylif a gynhyrchwyd ganddynt. Roedd cymeriant bwyd y cleifion yn cael ei gofnodi yn yr un ffordd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd sy'n cofnodi cymeriant hylif y cleifion a'r hylif a gynhyrchir ganddynt yn cael eu cwblhau'n gyson.

Cofnodion cleifion

Er bod ansawdd y prosesau cadw cofnodion yn yr Adran Achosion Brys yn dda ar y cyfan, gwelsom rai anghysondebau neu ddiffyg manylder yn rhai o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gan gynnwys asesiadau risg a siartiau cydbwysedd hylifau, fel y nodwyd eisoes.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth y staff yng nghofnodion y cleifion yn rhoi digon o fanylion clinigol/manylion am ofal, a bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n gyson.

Caiff cofnodion yr Adran Achosion Brys eu cadw ar system electronig, ond caiff dogfennaeth a gwblheir gan feddygon arbenigol o adrannau eraill sy'n adolygu cleifion yn yr Adran Achosion Brys eu cadw ar ffurf papur. Dim ond y cofnodion electronig a welsom, felly roedd hi'n anodd i ni gael darlun cyflawn a manwl o'r broses asesu a thrin gyffredinol. Byddai cyflwyno system rheoli cofnodion electronig ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau a rhyngddynt yn sylweddol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi system rheoli cofnodion electronig ar waith ar gyfer y gwasanaeth cyfan er mwyn hwyluso cyfathrebu cadarn a sicrhau parhad gofal effeithiol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwnaethom siarad â nifer o aelodau o staff clinigol yn yr Adran Achosion Brys, a dangosodd pob un ohonynt awydd i ddarparu gofal o safon dda i'r cleifion. Gwelsom hefyd fod arweinyddiaeth dda rhwng y timau meddygol a'r timau nyrsio.

Gwelsom ymatebion effeithiol i gleifion â symptomau cyflyrau lle mae amser yn hollbwysig, ac i'r cleifion hynny yr oedd eu cyflwr wedi gwaethygu tra roeddent yn yr adran.

Gwelsom gyfathrebu priodol rhwng staff yr Adran Achosion Brys, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo shiftt, a oedd, ar y cyfan, yn fanwl ac yn effeithiol. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r arolygiad blaenorol yn 2022.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am weithio yn yr adran ac yn ymrwymedig i wella ansawdd y gofal a roddir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapusach yn eu gwaith o gymharu â'r ffordd roeddent yn teimlo ar adeg ein harolygiad blaenorol, a'u bod yn teimlo bod hyn yn deillio o lefelau staffio gwell a chymorth gwell gan reolwyr yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, teimlai rhai nad oeddent yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr o'r tu allan i'r adran.

Cafwyd ymatebion cymysg gan y staff i'n holiadur, ac roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â llwyth gwaith, gofynion yr adran a'r cymorth gan dimau uwch-reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Er gwaethaf gwaith caled iawn, gofal ac ymrwymiad parhaus y staff sy'n gweithio yma, mae'n teimlo weithiau na allwn wneud ein gwaith yn iawn. Mae'r TG yn wael, mae problemau bob amser, ac mae'n rhaid i chi fynd allan o'r ffordd dim ond i argraffu ffurflen pelydr-X. Nid ward ydym ni ond adran achosion brys, ond mae disgwyl i ni ofalu am gleifion am ddiwrnodau maith mewn amgylchedd nad yw'n addas i wneud hynny. Er gwaethaf yr holl newidiadau cadarnhaol rydym yn eu gwneud, mae cleifion yn dal i gael gofal yn y coridorau mewn gwelyau a chadeiriau. Rydym yn gwneud ein gorau glas ond yn gadael gan deimlo nad ydym wedi cyflawni dim. Rydym yn gweithio mewn system sydd wedi torri."

"Nid wyf yn teimlo bod y rheolwyr yn weladwy yn yr adran o gwbl. Os mai chi yw'r nyrs â chyfrifoldeb, rydych yn teimlo ar eich pen eich hun, heb unrhyw gefnogaeth. Mae llawer o'r staff yn yr adran yn teimlo nad yw'r rheolwyr yn eu cefnogi o gwbl, ac mae hyn yn arwain at salwch a staff yn gadael."

"Prin iawn y gwelir uwch-reolwyr / swyddogion gweithredol yn yr Adran Achosion Brys. Mae tîm rheoli'r Adran Achosion Brys bob amser yn bresennol ac yn weladwy, ond prin iawn y gwelir neb uwchlaw hyn. Rwyf wedi nodi ers tro y dylai uwch-reolwyr / swyddogion gweithredol ddod i gwrdd â'r cleifion a'r staff yn rheolaidd, gan ddarparu presenoldeb a chymorth gweladwy. Byddai hyn nid yn unig yn dangos eu bod yn poeni am y cleifion ond hefyd eu staff sy'n gweithio'n galed ac yn wynebu heriau amhosibl wrth eu gwaith, yn hytrach na dim ond am dargedau rhifiadol nad ydynt prin yn

canolbwyntio ar gleifion unigol. Mae angen iddynt gerdded o amgylch yr Adran, gan siarad â'r staff a'r cleifion yn hytrach na dim ond cynnal sesiynau "galw heibio" lle nad oes angen iddynt wneud fawr ddim ymgysylltu, ac y mae'r staff yn rhy brysur i fynd iddynt. Cyhoeddodd AGIC adroddiad ychydig fflynyddoedd yn ôl yn nodi bod diffyg cyfathrebu amlwg rhwng y ward a'r bwrdd, ac yn anffodus, felly y mae o hyd. Mae'r staff rheng flaen yn gwneud gwaith gwych, ond prin y mae'r rheini oddi fri yn cydnabod hynny..."

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sylwadau'r staff uchod ynglŷn â diffyg cymorth gan reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys, a cheisio adborth yn ehangach gan staff yr adran, er mwyn helpu i ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau er budd y cleifion a'r staff.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Dyweddodd y staff wrthym fod aelodau tîm arwain yr Adran Achosion Brys yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, a bod y Fetron yn aml yn gweithio ochr yn ochr â'r staff i'w helpu yn ystod cyfnodau prysur. Fodd bynnag, nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi na'u gwerthfawrogi gan uwch-reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys.

Er gwaethaf yr adborth uchod gan staff am reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys, yn gyffredinol, gwelsom fod arweinyddiaeth ac ymgysylltu da yn yr Adran Achosion Brys. At hynny, roedd yn amlwg bod tîm arwain yr Adran Achosion Brys yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth ymhellach, ond bod diffyg cefnogaeth o'r tu allan i'r Adran yn gwneud hyn yn anodd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tîm cyfan yr Adran Achosion Brys yn cael ei gefnogi'n briodol gan arweinwyr a rheolwyr allweddol o'r tu allan i'r adran. Rhaid iddo hefyd sicrhau y rhoddir dull o ysgogi a chefnogi gwelliannau ar waith ar draws yr ysbyty a'r bwrdd iechyd cyfan.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod lefelau digonol o staff nyrsio a staff meddygol yn yr adran, ac nad oedd fawr ddim dibyniaeth ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu gyflenwi yn ystod absenoldebau. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'n harolygiad blaenorol.

Er bod yr adran yn brysur iawn drwy gydol yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod y staff yn ymdopi'n dda â'r pwysau a'u bod yn rhoi sylw i anghenion y cleifion ac yn ymateb iddynt.

Roedd prosesau da ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod y staff yn ei deall, gan gynnwys rhybuddion a bwletinâu. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod lefelau presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm yn wael oherwydd gofynion yr uned.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu cyfarfodydd tîm yn rheolaidd.

Roedd rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, wedi'i chefnogi gan nyrs datblygu ymarfer a oedd yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys.

Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â chwblhau hyfforddiant gorfodol, sy'n gyson â chanfyddiadau ein harolygiad blaenorol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Ar y cyfan, gwelsom fod diwylliant cadarnhaol, cefnogol a chynhwysol yn yr Adran Achosion Brys, a bod y staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

Roedd y cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd.

Roedd systemau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion, a oedd yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Roedd hysbysiadau wedi'u harddangos yn yr Adran Achosion Brys yn rhoi gwybod i'r cleifion ac ymwelwyr am unrhyw gamau a gymerwyd gan yr adran o ganlyniad i bryderon neu adborth gan gleifion. Dywedodd y staff hefyd fod adborth gan gleifion yn cael ei rannu â'r staff, ynghyd â gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ac adolygiadau cenedlaethol, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Roedd digwyddiadau a phryderon yn cael eu rheoli'n briodol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Defnyddiwyd monitorau crwn electronig yn yr Adran Achosion Brys er mwyn helpu i ddarparu gofal a thriniaeth effeithiol i'r cleifion. At hynny, roedd system cofnodion

a rheoli cleifion electronig ar waith yn yr Adran Achosion Brys, ac ar y cyfan, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y staff am y system.

Roedd y staff yn ymwybodol na ddylid gadael sgriniau cyfrifiaduron heb eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod a chynnal cyfrinachedd y cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd prosesau archwilio, adrodd ac uwchgyfeirio ffurfiol ar waith yn yr Adran Achosion Brys a oedd yn ysgogi gwelliannau o ran ansawdd.

Mae'n gadarnhaol nodi bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol o Adran Achosion Brys Maelor Wreccsam a'u cynnal. At hynny, roedd newidiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu gwelliannau a nodwyd yn ystod arolygiad blaenorol o adrannau achosion brys eraill yn y bwrdd iechyd.

Dull system gyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd enghreiffiau o waith partneriaeth da rhwng gwahanol ddisgyblaethau staff a phroffesiynau o fewn yr adran ac o'r tu allan iddi, gan gynnwys gwasanaethau fferylliaeth, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor Wrecsam

Dyddiad yr arolygiad: 09, 10 a 11 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y prosesau rheoli meddyginiaeth yn ddigon cadarn na diogel. Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau yn ardal adfywio'r adran a	Mae'n ofynnol i AGIC gael manylion am sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod mesurau ar waith i wneud yn siŵr bod dyddiadau defnyddio meddyginiaethau a hylifau mewnwythiennol yn cael eu gwirio'n rheolaidd, ac i waredu eitemau y mae eu	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	Adolygu a diweddarau'r Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau stoc i ardaloedd clinigol gan ddefnyddio'r system rheoli ansawdd safonol. Sicrhau bod y broses a'r amserlen ar gyfer cylchdroi stoc, gwirio dyddiadau defnyddio, a gwaredu	Prif Dechnegydd y Fferyllfa	28 Chwefror 2025

<p>gwelsom fod dyddiadau rhai meddyginiaethau i'w chwistrellu a hylifau i'w trwytho'n fewnwythiennol wedi mynd heibio. Gwelsom hefyd nad oedd eitemau o feddyginiaethau yn cael eu storio yn eu bocsys gwreiddiol. Roedd hyn yn peri risg o niwed i'r cleifion.</p>	<p>dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio.</p>		<p>meddyginiaethau y mae eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio, wedi'u nodi'n amlwg yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol. Mesur: Gweithdrefn Weithredu Safonol ddiwygiedig ar waith, gwiriadau o ddyddiadau defnyddio yn unol â'r polisi, adroddiad blynyddol i gyfarfod misol Grŵp Cyflawni Ansawdd y Cwadrant Achosion Brys, oni bai bod angen adroddiad eithriadol.</p> <p>Cynnal adolygiad blynyddol o stocrestr yr Adran Achosion Brys, gan waredu meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd mwyach er mwyn atal dyddiadau meddyginiaethau stoc</p>	<p>Prif Fferylllydd - Y Cwadrant Achosion Brys</p> <p>Prif Fferylllydd - Y Cwadrant Achosion Brys</p> <p>Prif Dechnegydd y Fferyllfa</p>	<p>28 Chwefror 2025</p> <p>28 Chwefror 2025</p> <p>1 Medi 2025</p>
---	--	--	---	--	--

			<p>rhag mynd heibio mewn ardaloedd clinigol. Defnyddio data o System Rheoli Stoc y Fferyllfa, gan gynnwys data ar feddyginiaethau a roddwyd, er mwyn pennu'r stoc a ddefnyddiwyd.</p> <p>Cytuno ar raglen waith flynyddol o adolygiadau o'r stocrestr, a gaiff ei monitro drwy Grŵp Cyflawni Ansawdd y Fferyllfa.</p> <p>Caiff datrysiadau technolegol ar gyfer gwirio dyddiadau defnyddio meddyginiaethau eu hystyried a'u trafod â'r cyfarwyddwyr fferylliaeth, digidol a chyllid er mwyn pennu'r awydd i'w rhoi ar waith.</p>	<p>Prif Fferylllydd y Cwadrant Achosion Brys/Prif Dechnegydd y Fferyllfa</p> <p>Prif Dechnegydd y Fferyllfa</p>	<p>31 Mawrth 2025</p> <p>Ar unwaith</p>
--	--	--	--	---	---

			<p>Recriwtio'n barhaus i rôl y Swyddog Cynnal a Chadw Meddyginiaethau yn yr Adran Achosion Brys - bydd y rôl hon yn hwyluso'r broses o drosglwyddo meddyginiaethau personol cleifion, yn helpu i wirio dyddiadau defnyddio, ac yn cwblhau gwaith cynnal a chadw cyffredinol mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Hyd nes y caiff Swyddog Cynnal a Chadw Meddyginiaethau ei recriwtio, bydd Staff y Storfeydd Fferyllol yn cynnal gwiriadau misol o ddyddiadau defnyddio'r holl feddyginiaethau a</p>		
--	--	--	--	--	--

				gedwir yn y Cwadrant Achosion Brys,		
2.	<p>Gwnaethom edrych yn yr oergell storio meddyginiaethau yn ardal adfywio'r Adran Achosion Brys a gwelsom ddau focs o ampylau 50mg/ml o Suxamethonium Chloride i'w chwistrellu â dyddiad defnyddio o fis Hydref 2024.</p> <p>Gwelsom hefyd focs o ampylau 10mg/ml o Atracurium i'w chwistrellu â dyddiad defnyddio o fis Hydref 2024.</p> <p>Gwnaethom edrych mewn cwpwrdd storio meddyginiaethau yn ardal adfywio'r Adran Achosion Brys a gwelsom bwmp trwytho mewnwythiennol 500ml o</p>	Mae'n ofynnol i AGIC gael manylion am sut y bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio yn eu bocsys gwreiddiol bob amser, ynghyd â'r taflenni gwybodaeth perthnasol.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	<p>Cwblhau rhaglen addysg (hyfforddiant ar reoli meddyginiaethau) ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn yr Adran Achosion Brys. Y targed yw 80% erbyn diwedd mis Chwefror 2025 a 100% erbyn diwedd mis Mawrth 2025.</p> <p>Fel rhan o'r hyfforddiant, caiff unigolion cofrestredig eu hatgoffa am bolisi'r bwrdd iechyd ynglŷn â storio meddyginiaethau a chyfrifoldeb proffesiynol am reoli meddyginiaethau.</p> <p>Caiff dealltwriaeth ei mesur yn ystod y sesiynau hyfforddi.</p>	Nyrs Rheoli Meddyginiaethau, Pennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys/Fferylllydd Arweiniol y Cwadrant Achosion Brys	28 Chwefror 2025

<p>Suxamethonium Chloride 0.9% â dyddiad defnyddio o fis Mehefin 2024, a phwmp trwytho mewnwythiennol 500ml o Suxamethonium Chloride 2.7% â dyddiad defnyddio o fis Tachwedd 2024.</p> <p>Gwelsom hefyd becynnau o dabledi 5mg o Apixaban a thabledi 250mg o Clarithromycin nad oeddent wedi'u storio yn eu bocsys gwreiddiol. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw daflenni gwybodaeth gyda'r tabledi hynny i'r staff gyfeirio atynt.</p> <p>Yn yr un cwpwrdd, gwelsom hefyd nifer o ampylau o wahanol feddyginiaethau i'w chwistrellu nad oeddent wedi'u storio</p>			<p>Caiff llwyddiant ei fonitro drwy wiriadau rheoli meddyginiaethau'r uwch-staff nyrsio a lanlwythir i'r Dangosfwrdd Rheoli Meddyginiaethau, a'i adolygu yng nghyfarfod Grŵp Cyflawni Ansawdd y Cwadrant Achosion Brys.</p> <p>Diogelwch meddyginiaethau - arddangos arwyddion wedi'u lamineiddio yn gorfodi/nodi polisi dim goddefgarwch, er mwyn grymuso'r staff i herio eraill.</p> <p>Caiff y Dangosfwrdd Rheoli Meddyginiaethau ei fonitro'n wythnosol gan yr uwch-staff nyrsio a'r nyrsys rheoli</p>	<p>31 Ionawr 2025</p> <p>Adolygiad Misol</p>
--	--	--	--	--

<p>yn eu bocsys gwreiddiol. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw daflenni gwybodaeth gyda'r tabledi hynny i'r staff gyfeirio atynt.</p> <p>Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y risgiau o niwed i gleifion yn cael eu rheoli'n briodol.</p>			<p>meddyginiaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau disgwylidig. Caiff gwyradau eu nodi drwy Grwpiau Cyflawni Ansawdd a Diogelwch Gofal Iechyd Annibynnol a Chyfarfod Diogelwch Cleifion BIPBC a rhoddir camau gweithredu pellach ar waith lle bo angen.</p>		
--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Sue Robinson

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau

Dyddiad: 19/12/2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor Wrecsam

Dyddiad yr arolygiad: 09, 10 a 11 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd rhai cleifion yn cael gofal yn y coridorau. Gallai hyn effeithio ar breifatrwydd ac urddas.	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i leihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau.	Gofal Diogel	1. Cynnal, adolygu a chofnodi asesiadau risg clinigol ar gyfer pob claf er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal yn yr amgylchedd mwyaf addas sydd ar gael ar y pryd. 2. Uwchgyfeirio achosion o gleifion sy'n aros yn y coridorau drwy alwadau	Cyfarwyddwr y Safle	31 Mai 2025

			<p>dyddiol â'r safle, er mwyn monitro pa mor hir y maent yn aros.</p> <p>3. Adolygu a diweddarau polisi capasiti llawn a pholisi uwchgyfeirio'r ysbyty a rhoi fersiynau diwygiedig ar waith, er mwyn gwella llif cleifion a lleihau nifer y cleifion sy'n cael gofal yn y coridorau.</p> <p>4. Er mwyn cydnabod a lliniaru'r effaith ar gleifion, mae'r camau gweithredu canlynol eisoes ar waith; caiff y safonau hyn eu hailamlinellu a'u hatgyfnerthu drwy gyfarfodydd y staff nyrsio, sgrymiau diogelwch a chyfarfodydd trosglwyddo'r nyrsys</p> <p>a) Mae ystafell amldeffnydd yn cael ei defnyddio/ar gael at</p>	<p>Caiff hyn ei oruchwyllo gan Reolwr y Dydd y Cwadrant Achosion Brys a'r Nyrs â Chyfrifoldeb.</p> <p>Metron yr Adran Achosion Brys</p>	<p>30 Mehefin 2025</p> <p>30 Mehefin 2025</p> <p>29 Chwefror 2025</p> <p>31 Mawrth 2025</p>
--	--	--	---	---	---

			<p>ddibenion preifatrwydd ac urddas os oes angen.</p> <p>b) Byddwn yn parhau i gynnal rowndiau bwriadol er mwyn helpu i wella profiad y cleifion, a chaiff rowndiau bwyd a diodydd eu harchwilio'n fisol. Rhoddir adborth wythnosol ar ganfyddiadau archwiliadau yng nghyfarfodydd y staff Band 7 a'r Fetron. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd yr uwch-nyrsys</p> <p>c) nyrs ddynodedig/gweithiwr cymorth gofal iechyd dynodedig i ddarparu gofal i'r cleifion hynny yn y coridorau. Caiff argaeledd ei archwilio'n fisol. Rhoddir adborth wythnosol ar ganfyddiadau</p>		31 Mawrth 2025
--	--	--	---	--	----------------

			<p>archwiliadau yng nghyfarfodydd y staff Band 7 a'r Fetron. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd yr uwch-nyrsys</p> <p>d) sicrhau y rhoddir gwybod am achosion o fethu â chynnig preifatrwydd ac urddas digonol ac yr ymddiheurir i gleifion a'u teuluoedd am hynny.</p> <p>5. Adolygu a diweddarau'r polisi ar gyfer achosion lle mae'n rhaid cadw cleifion mewnol yn yr adran ('boarding' yn Saesneg) a rhoi'r polisi diwygiedig ar waith ar bob ward.</p> <p>Mae'r adran gyllid wedi costio opsiwn i wella</p>	<p>Cyfarwyddwyr Nyrsio fel rhan o ffrwd waith 2</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>30 Mehefin 2025</p> <p>30 Medi 2025</p>
--	--	--	---	---	--

				<p>goleuadau, cyfarpar a mesurau lliniaru preifatrwydd/urddas mewn ardal i'w staffio gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Y gost oedd tua £400k ac, felly, nid oes dim wedi'i wneud i fwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd.</p> <p>6. Ystyried pa fesurau lliniaru eraill y gellir eu rhoi ar waith i wella'r amgylchedd gofal.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty / Cyfarwyddwr Gweithrediadau</p>	<p>30 Mehefin 2025</p>
2.	<p>Nid oedd pob claf yn cael ei frysbennu o fewn 15 munud i gyrraedd yr Adran Achosion Brys, fel yr argymhellir gan y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu brysbennu'n gyflym ar ôl iddynt gyrraedd yr Adran Achosion Brys.</p>	<p>Gofal Amserol</p>	<p>Monitro perfformiad yn erbyn metrigau allweddol yr Adran Achosion Brys a metrigau llif allweddol drwy sgrymiau diogelwch dyddiol y safle, gan gynnwys parhau i ffrydio wrth y drws ffrynt.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng</p> <p>Caiff hyn ei oruchwyllo gan</p>	

			<p>Parhau i fonitro amseroedd brysbennu mewn amser real a chymryd camau unioni pan fydd cleifion yn aros mwy na 15 munud cyn cael eu brysbennu.</p> <p>Bydd clinigydd arweiniol Asesu a Thrin Cyflym yn penderfynu pa adnoddau i'w dyrannu er mwyn helpu i liniaru'r risgiau, gan gynnwys ail/trydydd clinigydd brysbennu (y bydd un ohonynt yn blaenoriaethu cleifion baner goch os oes angen). Gostwng lefel rhybudd ac ailddyrrannu adnoddau fel y bo angen. Caiff hyn ei werthuso drwy raglen chwe nod leol a chaiff ei roi ar waith os bydd amseroedd brysbennu yn gwella.</p>	<p>Reolwr y Dydd y Cwadrant Achosion Brys a'r Nyrs â Chyfrifoldeb</p>	
--	--	--	---	---	--

				<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd gwirio a herio dyddiol â rheolwyr y wardiau i drafod rhyddhau cleifion Adolygu'r llwybr cleifion sero yn ddyddiol Adolygu gwersi i'w dysgu/gwelliannau drwy'r rhaglen chwe nod. 		
4.	Roedd rhywfaint o oedi cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys.	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo o ambiwlansys i'r Adran Achosion Brys mewn modd amserol.		<ol style="list-style-type: none"> Parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2024/25 o ran amseroedd trosglwyddo drwy ddefnyddio protocol llawn yr Adran Achosion Brys yn gyson, gan ymgorffori sbardunau trosglwyddo ac uwchgyfeirio mewnol. <ul style="list-style-type: none"> Atgyfnerthu a monitro effaith cynnal sgrymiau tair gwaith y dydd rhwng Tîm yr Adran 	Pennaeth Nyrsio / Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gofal mewn Argyfwng. Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gofal mewn Argyfwng a	31 Mai 2025 31 Mawrth 2025

				Achosion Brys a Thîm y Safle.	Rheolwr Clinigol y Safle	
5.	Nid oedd y dodrefn yn yr ystafell asesu iechyd meddwl yn addas at y diben ac roedd risgiau posibl o hunan-niwed/risgiau pwyntiau clymu posibl.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod dyluniad y dodrefn yn yr ystafell asesu iechyd meddwl yn briodol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff ac yr eir i'r afael â risgiau pwyntiau clymu.	Gofal Diogel	<p>Mae Cydweithwyr Iechyd Meddwl wedi cwblhau asesiad risg, a nododd yr angen i uwchraddio'r ystafell.</p> <p>Adolygu'r cofnod risgiau presennol ar y Gofrestr Risgiau. Canlyniad cais a wnaed am gyllid Ystadau Cyfalaf i gefnogi gwaith i uwchraddio'r ystafell gan gynnwys hapwiriadau o gydymffurfiaeth mewn perthynas ag atal pwyntiau clymu yn yr ystafell er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfarpar y gellir ei symud yn ddiogel i'r claf yn yr ystafell.</p> <p>Cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o asesiadau risg drwy Archwiliadau Rheolwyr y Wardiau. Rhoddir adborth wythnosol ar ganfyddiadau archwiliadau yng nghyfarfodydd y staff Band</p>	<p>Pennaeth Nyrzio Gofal mewn Argyfwng</p> <p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng</p> <p>Pennaeth Nyrzio Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>31 Mawrth</p> <p>30 Ebrill</p> <p>30 Ebrill 2025</p> <p>31 Mawrth</p>

				<p>7 a'r Fetron. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd yr uwch-nyrsys.</p> <p>Sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth y staff yn parhau uwchlaw 85% mewn perthynas â hyfforddiant ar reoli ac atal pwyntiau clymu.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio a Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gofal mewn Argyfwng</p>	30 Ebrill
6.	<p>Roedd cleifion â chlefydau a allai fod yn drosglwyddadwy yn cael gofal mewn ardaloedd agored yn yr Adran Achosion Brys pan ddylent fod wedi cael ei roi mewn ciwbicl er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion sy'n dod i'r Adran Achosion brys â symptomau clefydau a allai fod yn drosglwyddadwy yn cael eu rhoi mewn ardal briodol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.</p>		<p>Defnyddir matrices risgiau i sicrhau bod unrhyw glaf â chyflwr heintus yn cael ei wahanu a'i roi mewn ardal briodol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mewnbwn dyddiol ac adolygiad gan y tîm atal a rheoli heintiau fel y bo angen 	<p>Pennaeth Nyrsio/ Cyfarwyddwr y Safle</p>	31 Awst 2025

			<ul style="list-style-type: none"> Mae'r tîm atal a rheoli heintiau yn cymryd rhan yn sgrymiau'r safle <p>Mae opsiynau cyfalaf wrthi'n cael eu hystyried (cyflwyniad diweddar gan yr adran ystadau i Dîm Rheoli'r Ysbyty) ynghyd ag opsiynau i fynd i'r afael â hyn, ond oherwydd y gost a'r ôl-troed ffisegol, ni fydd hyn yn hawdd ei ddatrys ac ni fydd modd gwneud hynny'n gyflym.</p>		31 Awst 2025
7.	Nid oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn nac mewn modd amserol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.	<ol style="list-style-type: none"> Ailaminellu'r safonau ar gyfer cwblhau asesiadau yn yr Adran Achosion Brys drwy gyfarfodydd y staff nyrsio, sgrymiau diogelwch a chyfarfodydd trosglwyddo'r nyrsys. Cynnal adolygiad â ffocws penodol o ddata archwiliadau drwy gofnodion y cleifion ar Symphony er mwyn nodi amseroedd aros cyfartalog 	Pennaeth Nyrsio / Metron yr Adran Achosion Brys	31 Mawrth 30 Mehefin 2025

			<p>am asesiad ac ansawdd asesiadau, er mwyn herio cydymffurfiaeth/cyfraddau cwblhau asesiadau risg ymhellach.</p> <p>3. Caiff gwiriadau dyddiol o gofnodion eu cynnal gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift. Fel rhan o'r gwiriadau sicrhau ansawdd o asesiadau risg, rhoddir adborth wythnosol ar ganfyddiadau archwiliadau yng nghyfarfodydd y staff Band 7 a'r Fetron. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd yr uwch-nyrsys.</p> <p>4. Nodi gofynion hyfforddiant a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus o fwy na 85% mewn perthynas â hyfforddiant ar asesiadau risg.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio / Pennaeth Nyrsio / Nyrs Datblygu Ymarfer</p>	<p>31 Mai 2025</p> <p>30 Mehefin 2025</p>
--	--	--	---	---	---

				5. Bydd aelodau perthnasol o'r staff yn mynychu'r Fforwm Dysgu ac Atal Briwiau Pwyso.		31 Awst 2025
8.	Nid oedd asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion yr oedd eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr yn gwarantu cynnal asesiad risg o'r fath.		<p>1. Ailaminellu'r safonau ar gyfer cwblhau asesiadau yn yr Adran Achosion Brys drwy gyfarfodydd y staff nyrsio, sgrymiau diogelwch a chyfarfodydd trosglwyddo'r nyrsys</p> <p>2. Cynnal adolygiad â ffocws penodol o ddata archwilio drwy gofnodion y cleifion ar Symphony er mwyn nodi amseroedd aros cyfartalog am asesiad ac ansawdd asesiadau, er mwyn herio cydymffurfiaeth/cyfraddau cwblhau asesiadau risg ymhellach.</p> <p>3. Cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o</p>	<p>Pennaeth Nyrsio / Metron Gofal mewn Argyfwng</p> <p>Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio / Pennaeth Nyrsio / Metron Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>30 Ebrill</p> <p>30 Mehefin</p>

			<p>asesiadau risg drwy Archwiliadau wythnosol Rheolwyr Wardiau.</p> <p>4. Caiff gwiriadau dyddiol o gofnodion eu cynnal gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd yr uwch-nyrsys.</p> <p>5. Dosbarthu cleifion yr aseswyd eu bod yn wynebu risg o gwmpo i garfannau yn ardal Uned Penderfyniadau Clinigol yr Adran Achosion Brys.</p> <p>6. Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus o fwy na 85% mewn perthynas â hyfforddiant ar asesuadau risg.</p>	<p>30 Mehefin 2025</p> <p>Ar unwaith</p> <p>30 Mehefin 2025</p>
--	--	--	---	---

9.	Nid oedd arsylwadau rheolaidd ar gleifion yn cael eu cofnodi'n gyson.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arsylwadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n gyson.	Gofal Effeithiol	<p>1. Ailaminellu'r safonau ar gyfer cynnal arsylwadau a chadw cofnodion yn yr Adran Achosion Brys drwy gyfarfodydd y staff nyrsio, sgrymiau diogelwch a chyfarfodydd trosglwyddo'r nyrsys.</p> <p>2. Cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o asesiadau risg drwy Archwiliadau wythnosol Rheolwyr Wardiau.</p> <p>3. Caiff gwiriadau dyddiol o gofnodion eu cynnal gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiwn friffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd gyda'r uwch-nyrs.</p> <p>4. Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus o</p>	Pennaeth Nyrsio / Metron Gofal mewn Argyfwng	<p>30 Ebrill</p> <p>30 Mehefin 2025</p> <p>30 Mai 2025</p> <p>30 Mehefin 2025</p>
----	---	--	------------------	---	--	---

			<p>3. Caiff gwiriadau dyddiol o gofnodion eu cynnal gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiwn friffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd gyda'r uwch-nyrs.</p> <p>4. Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus o fwy na 85% mewn perthynas â hyfforddiant ar gadw cofnodion.</p>		<p>30 Mai 2025</p> <p>Erbyn 30 Mai ac yn barhaus wedi hynny</p>
11.	Dim ond o bryd i'w gilydd yr oedd siartiau cydbwysedd hylifau yn cael eu cwblhau ac o ganlyniad, nid oeddent yn rhoi darlun cywir o gymeriant hylif y cleifion na'r hylif a	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau cydbwysedd sy'n cofnodi cymeriant hylif y cleifion a'r hylif a gynhrychir ganddynt yn cael eu cwblhau'n gyson.	Ailaminellu'r safonau ar gyfer cadw cofnodion a siartiau cydbwysedd hylifau a bwyd yn yr Adran Achosion Brys drwy gyfarfodydd y staff nyrsio, sgrymiau diogelwch a chyfarfodydd trosglwyddo'r nyrsys.	Pennaeth Nyrsio / Metron Gofal mewn Argyfwng	31 Mawrth 2025

<p>gynhyrchwyd ganddynt. Roedd cymeriant bwyd y cleifion yn cael ei gofnodi yn yr un ffordd.</p>			<p>2. Rhoi'r gorau i'r system hybrid o ddefnyddio Symphony a chofnodion papur ar gyfer siartiau cydbwysedd hylifau a bwyd. Dim ond i gofnodi cymeriant hylif a bwyd y caiff copiau papur eu defnyddio.</p> <p>3. Cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o ddogfennau drwy Archwiliadau wythnosol Rheolwyr y Wardiau.</p> <p>4. Caiff gwiriadau dyddiol o gofnodion eu cynnal gan y Nyrs â Chyfrifoldeb ar bob shift. Rhoddir adborth unigol i'r staff lle mae angen iddynt wella. Rhennir themâu ehangach drwy sesiwn friffio ar ddiogelwch a chyfarfodydd adrannol a chyfarfodydd gyda'r uwch-nyrs.</p>	<p>30 Ebrill 2025</p> <p>31 Mawrth 2025</p> <p>31 Mawrth 2025</p>
--	--	--	--	---

				5. Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus o fwy na 85% mewn perthynas â hyfforddiant ar gadw cofnodion a'r Adnodd Sgrinio Risg Maeth Oedolion (WAASP).		
12.	Roedd rhai anghysondebau a diffyg manylder yn rhai o'r cofnodion a welsom.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth y staff yng nghofnodion y cleifion yn rhoi digon o fanylion clinigol/manylion am ofal, a bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n gyson.		<p>1. Ailaminellu'r safonau ar gyfer cadw cofnodion/cwblhau dogfennau yn unol â Meddygaeth Frys drwy'r Rhaglen Addysgu Feddygol, sgrymiau diogelwch a sianel gyfathrebu'r Adran Achosion Brys/SharePoint.</p> <p>2. Caiff cofnodion y cleifion eu hadolygu yn ystod y Cyfarfodydd Marwolaethau, Morbidrwydd a Thrawma misol. Mae canfyddiadau cyffredinol archwiliadau wedi dangos bod dogfennaeth o safon dda yng nghofnodion cleifion yr</p>	Cyfarwyddwr Clinigol / Pennaeth Nyrso Gofal mewn Argyfwng	<p>30 Mehefin 2025</p> <p>30 Mehefin 2025</p>

--	--	--

<p>Adran Achosion Brys. Lle y caiff materion eu nodi, tynnir sylw at yr angen am gofnodion cywir yn ystod sesiynau briffio ac addysgu.</p> <p>3. Cynnal a monitro rhaglen hyfforddiant barhaus a sesiynau penodol drwy sesiynau addysgu wythnosol a chyfarfodydd trosglwyddo dyddiol ar bwysigrwydd cadw cofnodion amserol a chywir i glinigwyr.</p> <p>4. Cynnal archwiliadau wythnosol a misol o safonau dogfennau ar draws y timau nyrsio a meddygol yn yr Adran Achosion Brys ac adrodd arnynt drwy Grŵp Llywodraethu, Grŵp Cleifion, Diogelwch ac Ansawdd a Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol yr Adran Achosion Brys.</p>		<p>31 Gorffennaf 2025</p> <p>30 Mehefin 2025</p>
--	--	--

13.	<p>Caiff nodiadau'r Adran Achosion Brys eu cadw ar system electronig ond caiff nodiadau a gwblheir gan feddygon arbenigol o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys eu cadw ar ffurf papur. Roedd hyn yn golygu ei bod hi'n anodd i AGIC lunio darlun cyflawn a manwl o'r broses asesu a thrin gan mai dim ond nodiadau electronig yr Adran Achosion Brys a oedd ar gael i ni eu gweld fel rhan o'n hymarfer olrhain achosion bwrdd gwaith. Byddai cyflwyno system rheoli cofnodion electronig ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan yn gwella'r broses o gofnodi, darllen a</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi system rheoli cofnodion electronig ar waith ar gyfer y gwasanaeth cyfan er mwyn hwyluso cyfathrebu cadarn a sicrhau parhad gofal effeithiol.</p>		<p>Mewn cydweithrediad â Swyddfa'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol, byddwn yn gweithio i ddatblygu ein systemau tactegol ymhellach i ddigideiddio a gwella prosesau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. System Derbyniadau Brys (EAS): Helpu clinigwyr a staff yr Adran Achosion Brys i reoli tasgau clericio a sicrhau llif gwaith effeithlon yn yr Adran Achosion Brys. 2. Ffurflen Glercio Las Ddigidol: Mewnbynnu gwybodaeth i Symphony a'r System Derbyniadau Brys, gan leihau'r angen i gofnodi data â llaw a diweddarau'r ddwy system mewn amser real. Bwriedir integreiddio â System Llif Cleifion PBC (STREAM) a Phorth Clinigol Cymru yn y dyfodol. 	<p>Cyfarwyddwr Clinigol / Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p> <p>Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth, Data Digidol a Thechnoleg (DDAT)</p> <p>Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth</p>	<p>30 Mehefin 2025</p> <p>30 Mehefin 2025</p> <p>31 Awst 2025</p>
-----	---	--	--	---	--	---

	rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau yn sylweddol.			Yn y tymor hwy, byddwn yn archwilio cyfleoedd a buddsoddiadau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi'r System Gofal Iechyd Cofnodion Electronig ar waith.		
14.	Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi na'u gwerthfawrogi gan uwch-reolwyr o'r tu allan i'r Adran Achosion Brys.	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tîm cyfan yr Adran Achosion Brys yn cael ei gefnogi'n briodol gan arweinwyr a rheolwyr allweddol o'r tu allan i'r adran. Rhaid iddo hefyd sicrhau y rhoddir dull o ysgogi a chefnogi gwelliannau ar waith ar draws yr ysbyty a'r bwrdd iechyd cyfan.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd geisio adborth yn ehangach gan staff yr Adran Achosion Brys, er mwyn helpu i ystyried sut y gellir gwneud</p>	Arweinyddiaeth	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r staff yn yr Adran Achosion Brys er mwyn trafod a dathlu/cydnabod gwelliannau parhaus yn yr adran. 2. Trefnu sesiynau agored rheolaidd / sesiynau galw heibio misol â'r uwch-reolwyr. 3. Uwch-arweinwyr mwy gweladwy - yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur yn yr Adran Achosion Brys. 	<p>Cyfarwyddwyr Gofal Iechyd Annibynnol Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth a'r Pennaeth Nyrso ar gyfer Gofal mewn Argyfwng</p>	<p>30 Mehefin 2025</p> <p>31 Ebrill 2025</p> <p>31 Mawrth 2025</p>

		gwelliannau er budd y cleifion a'r staff.				
15.	Roedd lefelau presenoldeb staff mewn cyfarfodydd tîm yn wael.	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod y staff yn mynychu cyfarfodydd tîm yn rheolaidd.	Y Gweithlu	<p>1. Lle y caiff cyfarfodydd tîm eu trefnu, os credir y bydd pwysau ar y gwasanaeth yn cyfyngu ar bresenoldeb ar y diwrnod, yna cânt eu haildrefnu er mwyn helpu i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o staff yn bresennol.</p> <p>2. Gall y staff hefyd ddarllen a gwrando ar drawsgrifiadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli unrhyw gyfleoedd dysgu.</p> <p>3. Sicrhau y caiff negeseuon a gwybodaeth allweddol eu rhannu drwy'r cylchlythyr misol, safle SharePoint yr Adran Achosion Brys a sesiynau â ffocws penodol yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo / sgrymiau.</p>	Cyfarwyddwr Clinigol / Rheolwr Arweiniol / Metron Gofal mewn Argyfwng	<p>30 Ebrill 2025</p> <p>30 Ebrill 2025</p> <p>31 Mai 2025</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Hazel Davies

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Ysbyty Maelor Wrecsam)

Dyddiad: 07.02.2025